

# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOC)

## Cylch Gorchwyl

### 1. Diben

Sefydlwyd y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOC) yn 2017 i oruchwylio'r gwaith o weithredu Cynllun Iechyd Gwaed Cenedlaethol GIG Cymru<sup>1</sup> (BHP). Cylch gwaith y BHP yw cychwyn a gweithredu arferion gorau sy'n seiliedig ar drallwysiad er mwyn sicrhau trallwysiad diogel a phriodol. Mae'r BHNOC yn gyfrifol am arwain y newidiadau hyn yng Nghymru gan gydweithio â Byrddau Iechyd (HBs) a Llywodraeth Cymru (WG).

Mae'r BHNOC yn gorff Cymru Gyfan a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru (WG) i arwain ar bob mater sy'n ymwneud â'r BHP a materion perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd y gwaed.

### 2. Nod

Nod y BHNOC yw hyrwyddo, hwyluso a rhoi'r BHP ar waith mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd ac arbenigwyr pwnc ledled Cymru.

### 3. Llywodraethu

Mae'r BHNOC yn atebol i WG drwy'r Prif Swyddog Meddygol (CMO), a bydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol. Mae'r BHNOC yn cael ei gydnabod gan WG fel grŵp cynghori arbenigol ym maes trallwysiad a materion cysylltiedig. Mae ganddo'r awdurdod i ddatblygu, a gyda chytundeb cynrychioliadol WG, i weithredu mentrau iechyd gwaed sy'n sicrhau cyflenwad diogel a defnydd priodol o waed yng Nghymru.

Mae'r BHNOC yn gyfrifol am lywodraethu a chyfeiriad ffrydiau gwaith allweddol /grwpiau Gorchwyl a Gorffen sydd eu hangen i ddarparu'r BHP.

- 3.1. Bydd ffrydiau gwaith yn cyfarfod ar sail ad hoc yn ôl disgrisiwn pob arweinydd ffrwd waith.
- 3.2. Penodir arweinwyr ffrydiau gwaith gan Gadeirydd y BHNOC a byddant yn gwasanaethu am o leiaf 12 mis yn y swydd
- 3.3. Bydd arweinydd y ffrwd waith yn gyfrifol am gyflwyno adroddiadau cynnydd ym mhob cyfarfod BHNOC a chanlyniadau ffrwd waith yn seiliedig ar gylch adolygu 12 mis

## Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOC) Cylch Gorchwyl

Bydd y BHNOC hefyd yn goruchwylio gwaith y pwyllgorau canlynol i gyflawni amcanion y BHP:

- Pwyllgorau Trallwysiad mewn Ysbytai (HTC)
- Grŵp Ymarferwyr Trallwysiad Cymru Gyfan (AWTPG)
- Grŵp Rheolwyr Labordai Trallwysiad Cymru Gyfan (AWTLMG)

### 4. Cadeirydd

Etholir cadeirydd y BHNOC o'r aelodaeth, gan yr aelodau. Mae'r dewis hwn i'w gymeradwyo gan y CMO ar ran WG. Bydd Dirprwy gadeirydd hefyd yn cael ei ddewis o fewn aelodaeth y grŵp.

### 5. Aelodaeth

Cadeirydd
Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Meddygol
Cadeirydd Grŵp Cynghori Arbenigol Haematoleg (SAG)
Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol
Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cynrychiolydd Annibynnol
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS)
Ymgynghorydd gyda chyfrifoldeb BHP/Cyfarwyddwr Meddygol WBS
Cadeiryddion Pwyllgorau Trallwysiad mewn Ysbytai (HTC) o bob Bwrdd Iechyd, neu ddewis arall a enwebwyd
Cynrychiolydd Rhwydwaith Trawma De Cymru (SWTN)
Cynrychiolydd Gofal Critigol
Arweinwyr Ffrydiau Gwaith BHNOC
Cynrychiolydd Rheolwyr Labordai Trallwysiad
Cynrychiolydd Ymarferwyr Trallwysiad
Arweinydd Tîm Iechyd Gwaed (BHT)

Bydd y cynrychiolwyr a nodir yn y tabl aelodaeth uchod yn cael eu diffinio fel aelodau craidd o'r BHNOC a bydd pob un yn cael pleidlais.

Bydd aelodau nad ydynt yn aelodau craidd o'r grŵp yn mynychu yn ôl yr angen ac ni fyddant yn cael pleidlais. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Arweinydd Clinigol Obstetreg a Gynaecoleg
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Cynllunio
- Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynrychiolydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)

## Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOC) Cylch Gorchwyl

Aelodau o'r Tîm Iechyd Gwaed a'r Adran weinyddol i gefnogi'r BHNOC

Gellir cyfethol aelodau eraill yn ôl yr angen i'r grŵp gyda chytundeb y Cadeirydd, ac mae hyn yn cynnwys gwahodd staff at ddibenion datblygu.

Yn ogystal, gall unigolion sydd â diddordeb fynychu cyfarfodydd, gyda chytundeb y cadeirydd ymlaen llaw.

Mae'r BHNOC yn ceisio sicrhau bod cynrychiolaeth o bob un o'r Byrddau Iechyd yng Nghymru ac amrywiaeth o arbenigwyr pwnc o bob rhan o'r sbectrwm clinigol.

Un llwybr allweddol i ddylanwadu ar ymarfer bydd drwy Fyrddau Iechyd. Bydd yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd gael HTC gyda'r awdurdod i gymryd y camau angenrheidiol i wella arferion trallwysu.

Yn benodol, dylai'r HTC:

- Gynnwys BHP fel amcanion craidd o fewn ei Gylch Gorchwyl
- Cysylltu'n uniongyrchol â'r BHNOC drwy gynrychiolydd Cadeirydd HTC
- Goruchwylio'r gwaith o weithredu BHP ar ran eu HB
- Bod â strwythur adrodd hyd at Lefel y Bwrdd
- Gweithio ar y cyd â BHNOC i gychwyn ac ymgorffori arferion gorau trallwysu ledled Cymru

### 6. Amllder y Cyfarfod

Bydd y BHNOC yn cyfarfod bob chwarter. Er mwyn gwneud cworwm, bydd angen i'r BHNOC fod â chynrychiolaeth o o leiaf Byrddau Iechyd, Arbenigwyr Pwnc, WBS a Llywodraeth Cymru; rhaid cynrychioli o leiaf bedwar Bwrdd Iechyd, a rhaid cael digon o arbenigedd pynciol i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu llywio a bod tystiolaeth yn seiliedig arnynt. Os nad ystyrir bod y BHNOC yn gworwm, yna gellir cyflwyno penderfyniadau i'r cyfarfod nesaf neu eu cytuno y tu allan i amserlen y cyfarfod gyda'r gynrychiolaeth berthnasol yn bresennol.

Mae'r Gweithgor Gwaith Gweithredol (EWG) yn is-grŵp o'r BHNOC ac yn sicrhau bod momentwm amcanion y grŵp yn cael ei gynnal rhwng cyfarfodydd BHNOC. Bydd yr EWG yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cadeirydd BHNOC;
- Ymgynghorydd gyda chyfrifoldeb BHP/Cyfarwyddwr Meddygol WBS;
- Cyfarwyddwr WBS;
- Arweinydd Tîm Iechyd Gwaed;

## Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOC) Cylch Gorchwyl

### 7. Cefnogaeth Weinyddol

Mae BHNOC yn cael ei gynnal gan y Bwrdd, sy'n cefnogi gweinyddiaeth y pwyllgor a'i gyfarfodydd. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu trefnu cyfarfodydd; dogfennu a chadw cofnodion o'r holl gyfarfodydd a gynhelir; a chyfathrebu effeithiol ar ran y pwyllgor

### 8. Dogfennaeth Sy'n Ofynnol

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu
- Adroddiadau diweddarau'r ffrwd waith i gynnwys data monitro KPI a chynlluniau gweithredu
- Adroddiadau Diweddarau Grwpiau Adrodd
- Dogfennaeth sy'n cefnogi eitemau agendâu

### 9. Gorchwyl

Bydd y BHNOC yn gweithio'n strategol ledled Cymru i gyflawni tri nod allweddol y BHP:

- Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles, gan osgoi ymyrraeth ddiangen
- Defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i ysgogi gwelliannau cynllunio gwasanaethau i leihau amrywiad amhriodol
- Osgoi niwed, gosod diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal

Bydd y rhain yn cael eu darparu drwy amrywiaeth o ffrydiau gwaith, polisiau ac ymyriadau a hwylusir gan y BHT ac a arweinir gan amrywiaeth o arbenigwyr pwnc.

## Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) Cylch Gorchwyl

Mae amcanion ychwanegol y BHNOG yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu canllawiau arfer gorau yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol a rhai sy'n datblygu ym maes gwyddoniaeth trallwysu
- Hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad mewn archwiliadau/arolygon rhyngwladol cenedlaethol, y DU a lle bo'n briodol
- Cymeradwyo'r defnydd o ddata archwilio ac offer gwella ansawdd ar gyfer rheoli a defnyddio gwaed ledled Cymru, gan roi gwybodaeth a data i dimau clinigol ar eu perfformiad i atgyfnerthu gwelliant
- Darparu cyngor trallwysu arbenigol i Lywodraeth Cymru a grwpiau arbenigol cenedlaethol eraill
- Integreiddio arferion gorau trallwysu ym mholisiau Cymru Gyfan a mentrau cenedlaethol i ddangos effaith trallwysu
- Gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i gefnogi rheoli gwaed cleifion unigol mewn llwybrau gofal priodol; bydd hyn yn cwmpasu arferion sy'n datblygu i gefnogi diogelwch a lleihau'r defnydd y gellir ei osgoi o drallwysu gwaed
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Addysg Trallwysu ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses drallwysu ledled Cymru gan sicrhau dull cyson o drallwysu

### 10. Cyfeiriadau

1. <https://llyw.cymru/cynllun-iechyd-gwaed-gig-cymru-whc2017028>